

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

12 Gorffennaf 2021

SL(6)016 – Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Dod i Ben yn Gynnar: Gofal a Chymorth gan Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2021

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Gwneir Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Dod i Ben yn Gynnar: Gofal a Chymorth gan Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2021 o dan adran 90 (1) o Ddeddf y Coronafeirws 2020 ("Deddf 2020").

Mae Rhan 2 o Atodlen 12 i Ddeddf 2020, ac adran 15 o Ddeddf 2020 (i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 2 o Atodlen 12), yn galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i symleiddio trefniadau asesu a blaenoriaethu gofal cymdeithasol oedolion, lle bo angen, yn fwy effeithiol nag y gallent ei wneud o dan eu dyletswyddau presennol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") ar ei ffurf heb ei haddasu. Bwriad yr addasiadau oedd galluogi awdurdodau lleol i ddarparu gofal brys ac aciwt yn ddi-oed yn ystod amseroedd eithriadol. Er gwaethaf yr addasiadau a wnaed gan Ddeddf 2020, roedd amryw o fesurau diogelwch yn parhau i fod ar waith o fewn Deddf 2014. Dechreuwyd y darpariaethau perthnasol ar 1 Ebrill 2020 ac fe'u hataliwyd dros dro ar 22 Mawrth 2021 gan Reoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Atal Dros Dro: Gofal a Chymorth gan Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2021.

Diben y Rheoliadau yw dod â gweithrediad y darpariaethau perthnasol yn Neddf 2020 i ben yn gynnar, i'r graddau y maent yn ymwneud ag oedolion ac oedolion sy'n ofalwyr sy'n cael gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae adran 89 o Ddeddf 2020 yn darparu ar gyfer y darpariaethau perthnasol yn dod i ben yn awtomatig ar 25 Mawrth 2022, oni bai eu bod yn cael eu hymestyn neu bod Gweinidogion Cymru yn eu dirwyn i ben yn gynnar. Effaith y Rheoliadau yw dileu'r opsiwn i dynnu ar yr addasiadau (sydd wedi'u hatal dros dro beth bynnag).

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi fydd y Rheoliadau'n cael unrhyw effaith ymarferol ar awdurdodau lleol, oedolion sy'n derbyn gofal neu ofalwyr sy'n oedolion gan nad oes unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru wedi darparu gwasanaethau yn unol â darpariaethau addasedig Deddf 2014 pan oedd darpariaethau perthnasol Deddf 2020 mewn grym.

Y bwriad yw y bydd y Rheoliadau yn dod i rym ar 1 Awst 2021 fel y bydd Rhan 2 o Atodlen 12 yn dod i ben ar y dyddiad hwnnw, ac eithrio paragraffau 30 a 33 a 35. Mae adran 89 (2) o Ddeddf 2020 yn darparu'n benodol na ellir dod â'r paragraffau hyn i ben yn gynnar. Mae



hyn yn adlewyrchu'r natur drosiannol y gall y darpariaethau ei chwarae ar ôl unrhyw "gyfnod brys", gan gynnwys ar ôl i Ddeddf 2020 beidio â bod yn effeithiol.

Mae paragraff 31(1) yn egluro mai "cyfnod brys" yw unrhyw gyfnod pan fydd yr addasiadau a ddarperir gan Ran 2 o Atodlen 12 yn cael effaith. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi bod awdurdodau lleol yng Nghymru i gyd wedi cadarnhau nad oeddent mewn gwirionedd yn gweithredu yn unol â'r darpariaethau addasedig yn ystod y "cyfnod brys"

Mae paragraff 30 yn darparu y caiff awdurdod lleol gynnal asesiad ariannol a chodi ffi yn ôl-weithredol am anghenion a ddiwellir gan ddefnyddio'r darpariaethau addasedig yn ystod y "cyfnod brys" lle na chafodd ffi ei chodi, neu lle cafodd ffi ostyngol ei chodi. Mae paragraff 33 yn gwneud darpariaeth debyg ar gyfer camau ôl-weithredol mewn perthynas â dyletswyddau o dan Ddeddf 2014 sy'n ymwneud â throsglwyddo gofal a chymorth.

Mae paragraff 35 yn darparu y gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol a chyfarwyddo awdurdodau lleol i roi sylw i'r canllawiau hynny ynghylch sut y maent i arfer swyddogaethau o dan Ddeddf 2014 pan fo addasiadau Deddf 2020 i'r dyletswyddau gofal cymdeithasol presennol o dan Ddeddf 2014 ar waith.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi gan na ddarparwyd unrhyw wasanaethau o dan y dyletswyddau addasedig pan oedd y darpariaethau perthnasol mewn grym, ni ddisgwylir unrhyw effaith andwyol nac anfantais i unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth o ganlyniad i eithrio paragraffau 30, 33 a 35 o'r cam i ddod i ben y mae'r Rheoliadau hyn yn effeithio arno.

Rhiant-Ddeddf: Deddf y Coronafeirws 2020

Fe'u gwnaed ar:

Fe'u gosodwyd ar: 22 Mehefin 2021

Yn dod i rym ar: 31 Gorffennaf 2021

SL(6)017 – Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) (Diwygio) 2021

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015") yng ngoleuni diwygiadau i adran 83 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") a wnaed gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Effaith y Rheoliadau hyn fydd parhau â'r sefyllfa fel y mae mewn perthynas ag (a) y plant sy'n derbyn gofal y mae'n ofynnol iddynt gael cynllun addysg personol, a (b) y rhestr o wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn cynllun addysg personol.



Mae rheoliad 6 yn dileu'r gofyniad yn Rheoliadau 2015 fod cynllun gofal a chymorth yn cynnwys cynllun addysg personol, oherwydd bod y gofyniad hwnnw wedi ei fewnosod yn adran 83 o Ddeddf 2014.

Mae rheoliad 5 yn rhagnodi'r categorïau o blant sy'n derbyn gofal nad oes cynllun addysg personol i gael ei lunio ar eu cyfer fel rhan o'u cynllun gofal a chymorth. Y categorïau a ragnodir yw'r rheini nad oedd cynllun addysg personol yn ofynnol ar eu cyfer gan Reoliadau 2015. Dyma nhw:

- unrhyw blentyn sydd wedi cael ei leoli ar gyfer mabwysiadu o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002, oni bai bod rheoliad 56 yn gymwys i'r plentyn (hynny yw os yw plentyn (i) ar remánd i lety awdurdod lleol, (ii) ar remánd i lety cadw ieuenctid, neu (iii) wedi'i gadw'n gaeth);
- unrhyw blentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol am seibiannau byr (dan yr amgylchiadau a nodir yn rheoliad 62(2));
- unrhyw blentyn sy'n derbyn gofal dim ond am iddo fod ar remánd i lety cadw ieuenctid.

Daw'r rheoliadau newydd hyn i rym ar 1 Medi 2021.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Fe'u gwnaed ar:

Fe'u gosodwyd ar: 22 Mehefin 2021

Yn dod i rym ar: 01 Medi 2021

